



Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Adroddiad Monitro Blynyddol 2018-2019
i Gomisiynydd y Gymraeg

Medi 2019

Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Adroddiad Monitro Blynyddol 2018-2019 i Gomisiynydd y Gymraeg

Medi 2019

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019. Hunanasesiad ydyw o sut mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi parhau i gyflawni'r ymrwymadau yn ei [Chynllun Iaith Gymraeg 2018](#) (y Cynllun) yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'r Cynllun yn amlinellu sut mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gweithredu'r egwyddor yn Adran 5 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, sef y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Mae'n galluogi pawb sy'n derbyn gwasanaeth gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yma yng Nghymru, neu sy'n cyfathrebu â ni, i wneud hynny drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, yn unol â'u dewis personol.

Mae'n gynllun corfforaethol sy'n ymdrin â datblygu polisiau, recriwtio a darparu gwasanaethau i'r cyhoedd o fewn pencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Dyma'r Adroddiad Monitro Blynyddol cyntaf ar gyfer blwyddyn gyntaf ein Cynllun 2018.

Mae pump o Asiantaethau Gweithredol yn ein cefnogi ni i ddarparu'r rhan fwyaf o'n gwasanaethau i'r cyhoedd¹: Mae gan bob un o'n Hasiantaethau Gweithredol eu Cynllun Iaith Gymraeg eu hunain sy'n cyflawni darpariaeth o wasanaethau iaith Gymraeg sydd naill ai'n gyfwerth â darpariaeth y Cynllun neu'n rhagori ar hynny. Gan fod pob Asiantaeth Weithredol yn adrodd i Gomisiynydd y Gymraeg bob blwyddyn hefyd, nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei hailadrodd yma, oni bai ei bod yn berthnasol at ddibenion adrodd y Cynllun corfforaethol.

Crynodeb o'n cyflawniadau

Dyma rai o'r pethau a gyflawnwyd yn ystod 2018--19:

- Mae ymgynghoriadau allweddol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gael yn Gymraeg ar Hyb Ymgynghori'r Weinyddiaeth ar ein tudalennau GOV.UK 'corfforaethol' ac ar dudalennau 'cyffredinol' GOV.UK
- Lansio Cynllun Iaith Gymraeg corfforaethol 2018 y Weinyddiaeth Gyfiawnder drwy Ddatganiad i'r Wasg ym mis Mehefin ar ôl i Gomisiynydd y Gymraeg ei gymeradwyo ym mis Ebrill.
- Hyrwyddo'r Cynllun Iaith Gymraeg mewn neges ar y fewnwyd i'r holl staff ym mis Medi.
- Mae pob ffurflen ac arweiniad am amlosgi ar gael yn Gymraeg, ar ôl i Reoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2017 gael eu cyflwyno a dod i rym ar 6 Ebrill 2018.
- Lanswyd tudalen lanio Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer ein gwefan yn 2018 ac mae ar gael yma:
<https://www.gov.uk/government/organisations/ministry-of-justice.cy>

¹Dyma ein pump o Asiantaethau Gweithredol: Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd ei Mawrhydi (GLITEM), Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS), yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA), Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (OPG), a'r Awdurdod Iawndal am Anafiadau Troseddol (CICA).

- Cwblhau'r Concordat rhwng y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru, a oedd yn nodi'r berthynas waith rhwng Llywodraeth Cymru a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.
- Mae Grŵp Cydlynwyr y Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn parhau i fod yn weithredol, ar ffurf ffisegol a rhith. Mae'r grŵp yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn ac yn ymdrin â holl feysydd busnes y Weinyddiaeth Gyfiawnder.
- Mae system e-recriwtio Oleeo (World Careers Network gynt) wedi hysbysebu 107 o swyddi gwag lle tynnwyd sylw at yr iaith Gymraeg.
- Cynhaliwyd arolwg gwirfoddol yng Nghymru ynghylch sgiliau Gymraeg barnwyr yn ystod mis Tachwedd 2018.
- Er mwyn cefnogi llwyddiant ein Prawf Effaith ar y Gymraeg ar gyfer swyddogion polisi, cyfieithodd Uned Iaith Gymraeg GLITEM 43 o ddogfennau polisi corfforaethol.
- GLITEM yn cyhoeddi ei Gynllun Iaith Gymraeg newydd ym mis Mai 2018; a Chynllun Iaith Gymraeg HMPPS yn cael ei ddatblygu.

Cynnydd wrth gyflawni'r Cynllun Gweithredu

Isod, cyflwynir y diweddaraf ar ein cynnydd wrth gyflawni camau gweithredu perthnasol ein Cynllun Iaith Gymraeg, er mwyn helpu i ddangos a ydym yn cydymffurfio â'r cynllun.

Adroddiad Monitro Blynyddol 2017-18 y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Mewn ymateb i Adroddiad Monitro Blynyddol 2017-18, cyflwynodd Comisiynydd y Gymraeg awgrymiadau i ni o ran beth ddylem barhau i'w gynnwys yn ein Hadroddiadau Monitro Blynyddol. Rydym wedi gwneud hynny yma.

1. Datblygu a gweithredu polisi

Meini prawf llwyddiant:

- Gwella ymwybyddiaeth staff; ystyried gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg yn y broses gaffael a llunio polisiau.*
- Mae staff polisi, dadansoddi a chyfreithiol yn ystyried goblygiadau i'r Gymraeg wrth ddatblygu polisiau ac ymgynghori.*

Ymgynghoriadau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder

Yn ystod cyfnod adrodd 2018-19, cynhaliodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder nifer o ymgynghoriadau yn Gymraeg a chyhoeddi ymatebion yn Gymraeg fel a ganlyn:

Ymgynghoriad ar gostau sefydlog y gellir eu hadennill:

Cafodd yr ymgynghoriad ei gyfieithu yn ei gyfanrwydd (Mawrth 2019), ac mae ar gael ar hyb ymgynghori corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac ar safle cyffredinol GOV.UK.

Ymchwiliadau crwner i farw-enedigaethau:

Cafodd yr ymgynghoriad ei gyfieithu yn ei gyfanrwydd (Mawrth 2019) ac mae ar gael ar hyb ymgynghori corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac ar safle cyffredinol GOV.UK.

Gorfodi gorchmynion meddiannu a gweithdrefnau alinio yn y Llys Sirol a'r Uchel Lys:

Cafodd yr ymgynghoriad ei gyfieithu yn ei gyfanrwydd (Chwefror 2019) ac mae ar gael ar hyb ymgynghori corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac ar safle cyffredinol GOV.UK.

Deddf Gwarcheidiaeth (Pobl sydd ar goll) 2017, Gweithredu'r Ddeddf:

Cafodd yr ymgynghoriad ei gyfieithu yn ei gyfanrwydd (Rhagfyr 2019) ac mae ar gael ar hyb ymgynghori corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac ar safle cyffredinol GOV.UK.

Adolygiad o ddiwygiadau i asiantau gorfodi, cais am dystiolaeth:

Cafodd y cais am dystiolaeth ei gyfieithu yn ei gyfanrwydd (Tachwedd 2018), ac mae ar gael ar hyb ymgynghori corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac ar safle cyffredinol GOV.UK.

Diwygio'r gofynion cyfreithiol ar gyfer ysgaru:

Cafodd yr ymgynghoriad ei gyfieithu yn ei gyfanrwydd (Medi 2018) ac mae ar gael ar hyb ymgynghori corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac ar safle cyffredinol GOV.UK. Cafodd yr ymateb i'r ymgynghoriad ei gyfieithu yn ei gyfanrwydd (Ebrill 2019) ac mae ar gael ar hyb ymgynghori corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac ar safle cyffredinol GOV.UK.

Sefydlu Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol:

Cafodd yr ymgynghoriad ei gyfieithu yn ei gyfanrwydd (Medi 2018) ac mae ar gael ar hyb ymgynghori corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac ar safle cyffredinol GOV.UK.

Diwygio Cynllun Ffioedd Graddedig Adfocadau (AGFS):

Cafodd crynodeb o'r ymgynghoriad (Awst 2018) a'r ymateb i'r ymgynghoriad (Ionawr 2019) eu cyfieithu, ac maent ar gael ar hyb ymgynghori corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac ar safle cyffredinol GOV.UK.

Cryfhau'r gwasanaeth prawf, meithrin hyder:

Cafodd yr ymgynghoriad ei gyfieithu yn ei gyfanrwydd (Gorffennaf 2018) ac mae ar gael ar hyb ymgynghori corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac ar safle cyffredinol GOV.UK.

Deddf Atebolrwydd Sifil 2018:

Cafodd crynodeb o'r ymgynghoriad a'r cwestiynau (Gorffennaf 2018) eu cyfieithu i'r Gymraeg, ac maent ar gael ar hyb ymgynghori corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac ar safle cyffredinol GOV.UK.

Adolygu cymorth cyfreithiol ar gyfer cwestau

Cafodd crynodeb o'r ymgynghoriad a'r cwestiynau (Gorffennaf 2018) eu cyfieithu i'r Gymraeg, ac maent ar gael ar hyb ymgynghori corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac ar safle cyffredinol GOV.UK.

Rhan 39 Rheolau Trefniadaeth Sifil: y newidiadau arfaethedig:

Cafodd yr ymgynghoriad ei gyfieithu yn ei gyfanrwydd (Gorffennaf 2018) ac mae ar gael ar hyb ymgynghori corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac ar safle cyffredinol GOV.UK.

Ailystyried Penderfyniadau'r Bwrdd Parôl: Creu system newydd ac agored:

Cafodd yr ymgynghoriad ei gyfieithu yn ei gyfanrwydd (Ebrill 2018) yn ogystal â'r ymateb i'r ymgynghoriad (Chwefror 2019). Mae'r ddau ar gael ar hyb ymgynghori corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac ar safle cyffredinol GOV.UK.

Trawsnewid yr ymateb i gam-drin domestig:

Cafodd yr ymgynghoriad ei gyfieithu yn ei gyfanrwydd (Mawrth 2018) ac mae ar gael ar hyb ymgynghori corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac ar safle cyffredinol GOV.UK.

[Concordat y Weinyddiaeth Gyfiawnder / Llywodraeth Cymru](#)

Fel yr adroddwyd y llynedd, mae'r Concordat rhwng y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru yn nodi'r berthynas waith rhwng Llywodraeth Cymru a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae'n ymdrin â threfniadau ar gyfer ymgynghori a chydweithredu rhwng y ddau gorff ac yn trafod cyfnewid gwybodaeth (gan gynnwys ar ba delerau mae gwybodaeth yn cael ei rhannu), effeithiau ar gyfiawnder, mynediad at wasanaethau, datrys anghydfodau ac adolygu cysylltiadau. Cafodd y

[Concordat](#), dyddiedig 25 Mehefin 2018, ei gyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'n gam pwysig ymlaen er mwyn sicrhau gwell arferion gwaith, cysylltiadau rhynglywodraethol a chanlyniadau cyfiawnder i'r ddwy weinyddiaeth.

Adroddiad Cymraeg yn y Carchar

Ym mis Rhagfyr 2018, cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg ei adroddiad, 'Cymraeg yn y Carchar'² a oedd yn seiliedig ar waith ymchwil â charcharorion, cyn-garcharorion, eu teuluoedd a staff yng Nghymru. Roedd yr adroddiad yn cynnwys 17 o argymhellion o ran darparu gwasanaeth a pholisiau, ac mae HMPPS wedi derbyn pob un ohonynt. Mae HMPPS bellach yn symud ymlaen â'r argymhellion yng Nghynllun Iaith Gymraeg HMPPS 2019-22 sydd ar y gweill.

2. Recriwtio

Meini prawf llwyddiant:

- Mae system effeithiol ar waith i fonitro'r modd y mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn recriwtio staff ac yn penodi aelodau o'r farnwriaeth er mwyn sicrhau bod yr ymrwymadau yn y Cynllun Iaith Gymraeg yn cael eu bodloni.*
- Mae achosion llys yn cael eu cynnal yn Gymraeg pan fydd angen.*
- Mae agwedd gyson at y Gymraeg wrth recriwtio ynadon a barnwyr.*
- Mae'r system recriwtio newydd yn cydymffurfio â gofynion a deddfwriaeth Comisiynydd y Gymraeg.*

Staff

Meini prawf llwyddiant: a) *Mae system effeithiol ar waith i fonitro'r modd y mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn recriwtio staff ac yn penodi barnwyr er mwyn sicrhau bod yr ymrwymadau yn y Cynllun Iaith Gymraeg yn cael eu bodloni.* d) *Mae'r system recriwtio newydd yn cydymffurfio â gofynion a deddfwriaeth Comisiynydd y Gymraeg.*

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn defnyddio system e-recriwtio **Oleeo** (World Careers Network gynt). Rydym wedi hysbysebu 107 o swyddi gwag lle crybwyllir y Cynllun Iaith Gymraeg a lle mae'r gofynion iaith yn nodi bod y Gymraeg naill ai'n ddymunol neu'n hanfodol. Nid oes gennym wybodaeth am nifer y siaradwyr Cymraeg sydd wedi cael eu penodi i swyddi lle'r oedd gofyn am sgiliau iaith Gymraeg. Rydym yn chwilio am ffyrdd i ddeall y data hyn yn well ar system Oleeo.

Achosion llys

Meini prawf llwyddiant: b) *Mae achosion llys yn cael eu cynnal yn effeithiol yn Gymraeg pan fydd angen.*

Drwy fynd ati'n effeithiol i ddod o hyd i farnwyr ac ynadon Cymraeg eu hiaith, a'u recriwtio ar ôl hynny, gellir cynnal achosion llys yn Gymraeg pan fydd angen. Yn ystod y flwyddyn adrodd, cofnododd GLITEM 737 o achosion lle defnyddiwyd y Gymraeg. Dyma ddadansoddiad o'r ffigurau: Llysoedd y Goron 37, Llysoedd Ynadon 311, Sifil 371, Tribiwnlysoedd 18.

Y farnwriaeth

Meini prawf llwyddiant: c) *Mae agwedd gyson at y Gymraeg wrth recriwtio ynadon a barnwyr.*

Cwblhawyd 23 o ymarferion dethol barnwrol, ac adroddwyd yn eu cylch, yn 2018-19. Bydd y maes busnes a'r farnwriaeth yn gweld beth yw'r gofynion ar gyfer swyddi gwag o safbwynt y Gymraeg, a bydd y Comisiwn Penodiadau Barnwrol yn asesu'r rhain.

Yn 2018-19, roedd gofyn cael asesiadau Cymraeg ar gyfer yr ymarferion dethol canlynol:

2

<http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/20181130%20DG%20C%20Cymraeg%20yn%20y%20carchar%20-%20terfynol.pdf>

Barnwr Cyflogedig y Tribiwnlys Cyflogaeth. Lanswyd yr ymarfer hwn ar 18 Mehefin 2018, gyda 59 o swyddi gwag. Roedd gofyn cael gwybodaeth am weinyddu cyfiawnder yng Nghymru ar gyfer rhai o'r swyddi ac roedd un yn gofyn am gymhwysedd yn y Gymraeg hefyd. Cafodd saith o ymgeiswyr eu hargymell yn addas i'w penodi yng Nghymru.

Nid oedd gofyniad o ran y Gymraeg ar gyfer yr ymarferion dethol canlynol, ond cafodd ymgeiswyr eu hasesu ar eu gwybodaeth am weinyddu cyfiawnder yng Nghymru:

Barnwyr sy'n Derbyn ffi yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf. Lanswyd yr ymarfer cenedlaethol hwn ar 31 Ionawr 2018, gyda 285 o swyddi gwag. Cafodd pob ymgeisydd a oedd wedi mynegi diddordeb mewn swydd yng Nghymru eu hasesu ar eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru drwy gyfrwng cyfres o gwestiynau penodol ar y diwrnod dethol. Cafodd 27 o ymgeiswyr eu hargymell ar gyfer swyddi yng Nghymru.

Cofiadur. Lanswyd yr ymarfer cenedlaethol hwn ar 8 Chwefror 2017, gyda 150 o swyddi gwag. Cafodd pob ymgeisydd a oedd wedi mynegi diddordeb mewn swydd yng Nghymru eu hasesu ar eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru drwy gyfrwng cyfres o gwestiynau penodol yn ystod y diwrnod dethol. Cafodd 19 o ymgeiswyr eu hargymell ar gyfer swyddi yng Nghymru.

Yn 2018-19 nid oedd yr iaith Gymraeg na chwestiynau am weinyddu cyfiawnder yng Nghymru yn codi yng nghyswllt yr ymarferion canlynol.

Aelodau Meddygol sy'n Derbyn Ffi yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf, Siambr Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol (Lloegr) a Thribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (MHRT)). Lanswyd yr ymarfer hwn ar 23 Ionawr 2018, gyda hyd at 80 o swyddi gwag ar gyfer Aelod Meddygol sy'n Derbyn Ffi yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf, Siambr Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol, Iechyd Meddwl (Lloegr); a hyd at 10 o swyddi gwag ar gyfer Aelod Meddygol sy'n Derbyn Ffi yn Nhribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (MHRT Cymru). Argymhellwyd penodi 15 o ymgeiswyr ar unwaith ar gyfer MHRT Cymru. Cafodd pedwar o ymgeiswyr eu hargymell ar gyfer HESC ac MHRT (Cymru).

Aelod Haen Gyntaf sy'n Derbyn Ffi, Siambr Addysg a Gofal Cymdeithasol Iechyd Meddwl (Lloegr) a Thribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl (Cymru), Panel Cleifion dan Gyfyngiadau. Lanswyd yr ymarfer hwn ar 12 Medi 2017, gyda 30 o swyddi gwag ar gyfer HESC a phump ar gyfer MHRT (Cymru). Argymhellwyd penodi pump o ymgeiswyr ar unwaith ar gyfer MHRT Cymru.

Aelodau Systemau Draenio sy'n Derbyn Ffi, Tribiwnlys Tiroedd Amaethyddol, Cymru Lanswyd yr ymarfer hwn ar 28 Chwefror 2018, gyda phump o swyddi gwag. Argymhellwyd penodi dau ymgeisydd ar unwaith.

Y Coleg Barnwrol

Cynhaliwyd arolwg gwirfoddol ymhlith barnwyr yng Nghymru ym mis Tachwedd, ynghylch eu sgiliau Cymraeg. Y nod oedd ceisio canfod pa farnwyr sy'n weddol rhugl yn yr iaith, ond nad ydynt yn gwrando ar achosion yn Gymraeg ar hyn o bryd, a dysgu pa fath o hyfforddiant allai fod o fudd iddynt. Roedd grŵp bychan o farnwyr a oedd yn dymuno cael rhagor o brofiad yn eu rôl neu eu hawdurdodaeth cyn ystyried gwrando ar achosion yn Gymraeg. Roedd y rhain yn frwd o blaid rhyw fath o sesiwn gynefino cyn gwrando ar achos Cymraeg am y tro cyntaf. Roeddent hefyd yn cefnogi cael hyfforddiant dilyniant rheolaidd i adolygu sut mae iaith a themau cyfreithiol yn datblygu yn y Gymraeg.

Trefnodd Pwyllgor Hyfforddiant Cymru seminar iaith Gymraeg i farnwyr ar ddechrau 2019. Mae'r Coleg bellach yn ymwybodol bod nifer sylweddol o siaradwyr Cymraeg yn y tribiwnlysoedd sydd wedi'u datganoli. Oherwydd eu bod y tu allan i gylch gwaith y Coleg Barnwrol, cynhelir trafodaethau ynghylch a oes modd cynnal seminarau iaith ar y cyd a sut gellir eu hariannu. Mae GLITEM yn cynnal digwyddiadau ar wahân i Ynadon ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y llys.

Mae'r Coleg Barnwrol yn paratoi tri bwletin bob blwyddyn, sy'n asesu cynnydd cyfraith ddatganoledig ac sy'n darparu gwybodaeth sydd ar gael i farnwriaeth Cymru a Lloegr. Mae'r bwletin yn cael ei baratoi yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae ardal ar wahân i Gymru ar System Rheoli Dysgu'r Coleg erbyn hyn, a bydd yn cynnwys dau ddewis o ran iaith pan fo hynny'n briodol ac yn ymarferol.

Mae Pwyllgor Hyfforddiant Cymru'n cael cysylltiad rheolaidd â Phwyllgor Cyngor y Barnwyr Cymru (sy'n cael ei gadeirio gan yr Arglwydd Brif Ustus). Roedd y Coleg yn gallu cefnogi ei ddau Arweinydd Hyfforddiant i fynd i Gynhadledd Cymru'r Gyfraith - digwyddiad blynyddol sy'n tynnu sylw at ddatblygiadau yn y gyfraith yng Nghymru ac sy'n canolbwyntio ar heriau ymarferol o ddydd i ddydd wrth ymarfer y gyfraith yng Nghymru. Mae'r farnwriaeth wedi cysylltu â'r Comisiwn Cyfiawnder yng Nghymru hefyd, sydd wrthi'n casglu tystiolaeth am y ffordd orau i ddatblygu'r system cyfiawnder ar sail dwy iaith a hynny mewn ardal lle mae mwy a mwy o'r gyfraith yn cael ei datganoli.

Pwyllgorau Cyngori a phenodiadau i'r Ynadaeth

Yn ystod 2018-2019, roedd Pwyllgorau Cyngori'r Arglwydd Ganghellor yng Nghymru yn parhau i ganolbwyntio ar ddwy ardal lle'r oedd angen i ynadon allu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. Nododd y Pwyllgor Cyngori bod angen saith ynad sy'n siarad Cymraeg yn ardal Dyfed Powys, ar draws tair Ardal Cyfiawnder Lleol, a phenodwyd tri ynad. Yng Ngogledd Cymru nodwyd bod angen wyth ynad sy'n siarad Cymraeg ar draws tair Ardal Cyfiawnder Lleol, a phenodwyd pedwar ynad.

Defnyddir yr adnodd Rhagolygon y Farnwriaeth i ganfod yr angen am ynadon sy'n siarad Cymraeg. Mae'n edrych yn fanwl ar faint sy'n ymdeol ac yn ymddiswyddo ym mhob ardal, nifer yr eisteddiadau a ragwelir ac yn edrych ar geisio sicrhau bod isafswm canran y fainc yn siaradwyr Cymraeg - mae hyn yn amrywio ar draws pob Ardal Cyfiawnder Lleol. Mae'r % wedi aros yn gyson yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac mae'n seiliedig ar adborth anecdotaidd o bob Ardal Cyfiawnder Lleol. Cesglir gwybodaeth am nifer yr achosion lle siaredir Cymraeg yn rhannol neu'n gyfan gwbl yn ystod gwrandawriad llys hefyd.

Rydym wedi nodi bod recriwtio Ynadon sy'n siarad Cymraeg yng Ngogledd Orllewin Cymru - Ynys Môn/Gwynedd a De Orllewin Cymru - Ceredigion/Sir Gaerfyrddin yn faes sy'n peri pryder. Mae hyn wedi'i godi ar lefel ranbarthol ym Mhwyllgor Sefydlog y Gymraeg ac ar lefel genedlaethol ac mae wedi'i gynnwys ar y gofrestr risg. Rydym wedi ystyried sut gallwn dargedu rhagor o geisiadau gan siaradwyr Cymraeg yn yr ardaloedd hynny.

3. Darparu gwasanaethau i'r cyhoedd

Gohebiaeth

Meini prawf llwyddiant:

- Dim cwynion gan gwsmeriaid yng Nghymru ynglŷn â diffyg eglurder o ran ymdrin â gohebiaeth Gymraeg.*
- Dogfennau'n cael eu cyfieithu i'r Gymraeg yn briodol.*
- Gohebiaeth Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg o fewn yr un amserlenni ag unrhyw ohebiaeth arall*

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, cafodd Tîm Cymorth Gohebiaeth Gweinidogol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ddau ddarn o ohebiaeth yn Gymraeg. Anfonwyd un at ddibenion gwybodaeth yn unig, ac nid oedd gofyn ymateb. Cais am wybodaeth ynghylch rheithwyr oedd y llall, ac fe wnaethom ymateb yn Gymraeg. Mae system gofnodi'n cael ei chynnal i fonitro lefelau'r ohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law y Tîm Cymorth a Gohebiaeth Gweinidogol, ac mae staff wedi cael eu hatgoffa i gadw cofnod o unrhyw ohebiaeth a geir yn Gymraeg ar y gronfa ddata. Mae hyn yn cynnwys copïau

caled drwy'r post neu ohebiaeth electronig dros e-bost. Mae staff gohebiaeth ar draws yr adran wedi cael eu hatgoffa hefyd bod angen ateb unrhyw ohebiaeth sy'n dod i law yn y Gymraeg yn y Gymraeg.

Galwadau ffôn

Meini prawf llwyddiant:

Galwadau ffôn gan siaradwyr Cymraeg yn cael eu hateb yn Gymraeg yn y cyswllt cyntaf.

Y Tîm Ymholiadau Cyhoeddus (sy'n rhan o ganolfan alw Cydwasanaethau ehangach yn Ne Cymru) sy'n delio â Llinell Ymholiadau Cyhoeddus y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ar gyfer galwadau gan bobl sy'n ffonio'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn unig. Daw'r galwadau'n bennaf gan bobl sydd am gael eu trosglwyddo i rywun yn y Pencadlys yn 102 Petty France Llundain, fel GLITEM, yr Uned Crwneriaid neu swyddfa'r wasg, er enghraifft. Y cyhoedd neu randdeiliaid allanol, gan gynnwys adrannau eraill y llywodraeth, sy'n gwneud y galwadau hyn fel arfer.

Nid yw'r gweithwyr ffôn ar switsfwrdd y Llinell yn rhoi unrhyw gyngor na gwybodaeth am y Weinyddiaeth Gyfiawnder, dim ond trosglwyddo galwadau i'r person priodol neu roi manylion e-bost ar gyfer blychau post. Rhif Llundain yw rhif y galwadau sy'n cyrraedd tîm y Llinell Ymholiadau Cyhoeddus. Nid yw'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn hysbysebu unrhyw ddewisiadau iaith i'r rheini sy'n ffonio; fodd bynnag, os bydd rhywun eisiau siarad Cymraeg yn unig, mae'r tîm yn gallu delio â'r cais oherwydd bod gan dîm y ganolfan alw Cydwasanaethau 20 siaradwr Cymraeg rhugl.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, nid oes galwr wedi ceisio cyfathrebu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn Gymraeg. Yn ystod y cyfnod hwn hefyd, nid yw'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cael unrhyw gwynion am y ffaith nad oes dewis Cymraeg mwy ffurfiol.

Digwyddiadau

Meini prawf llwyddiant:

Dim cwynion ynghylch methu â hwyluso'r defnydd o Gymraeg neu ddarparu cyfieithiadau Cymraeg mewn digwyddiadau yng Nghymru.

Nid yw'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cadw cofnodion canolog o ddigwyddiadau a gynhelir ar draws y busnes ynghylch cyfarfodydd yng Nghymru lle'r oedd trefniadau penodol i hwyluso defnydd o'r Gymraeg. Ceir arweiniad ar fewnwyd y Weinyddiaeth Gyfiawnder i helpu staff gyda chyfleusterau ac anghenion cyfieithu ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau sy'n cynnwys y cyhoedd yng Nghymru.

Mae **Fforwm Ymgysylltu Cymru Tri-Lat** (Llywodraeth Cymru) yn fforwm rheolaidd sy'n cynnwys cynrychiolaeth o sawl maes (polisi, diwygio GLITEM, diwygio'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a GLITEM Cymru) i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a darparu un pwynt cyswllt ar ei chyfer. Mae GLITEM Cymru yn darparu cymorth ysgrifenyddol yn y lleoliad yng Nghaerdydd. Mae'r pynciau a gafodd eu trafod yn y cyfarfod ym mis Medi 2018 yn cynnwys y diweddaraf ar Ddiwygio GLITEM, cyfathrebu ac ystyriaethau datganoli.

Hunaniaeth gorfforaethol

Meini prawf llwyddiant:

Cysondeb yn y ffordd y mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, mae Tîm Cyfathrebu Corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi bod yn gweithredu fel arfer o ran gweithgareddau sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Mae tîm dylunio canolog y Weinyddiaeth Gyfiawnder – Design102 – yn defnyddio Uned Iaith Gymraeg GLITEM ar gyfer yr holl waith cyfieithu sydd ei angen ar feysydd busnes y Weinyddiaeth. Mae

canllawiau brand y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn darparu cyngor ar ddefnyddio fersiynau Cymraeg a dwyieithog o logo'r Weinyddiaeth, ac mae nifer o dempledi Cymraeg a dwyieithog ar gael.

Cyhoeddiadau a ffurflenni

Meini prawf llwyddiant:

a) Cysondeb yn y ffordd y mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio.

b) Pob dogfen a gynhyrchir fel fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cynhyrchu i'r un safon ac o fewn yr un amserlen pan fo'r dyddiadau cau yn caniatáu hynny.

Pan fydd tîm dylunio'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, DESIGN102, yn llunio dogfen Saesneg sydd angen ei chyfieithu i'r Gymraeg, bydd yn rhoi ffeiliau sy'n cynnwys y gwaith celf i Uned Iaith Gymraeg GLITEM er mwyn iddynt allu sicrhau bod fformat y fersiwn Gymraeg a'r Saesneg yr un fath. Gan fod deunyddiau'n aml yn hwyr yn cael eu cymeradwyo, a newidiadau'n cael eu gwneud i'r dogfennau Saesneg munud olaf neu fersiynau newydd yn cael eu cyflwyno, nid yw'n bosib bob amser creu'r fersiwn Gymraeg a'r fersiwn Saesneg gyda'i gilydd. Serch hynny, bydd y fersiwn Gymraeg yn cael ei chyhoeddi cyn gynted ag y bo modd ar ôl y fersiwn Saesneg (ac yn bendant cyn pen 10 diwrnod gwaith o dan ein Cynllun Iaith Gymraeg). Bydd pob dogfen sy'n cael ei llunio yn Gymraeg ac yn Saesneg yn cael ei llunio i'r un safon.

Ffurflenni ac arweiniad ar amlosgi

Fel yr adroddwyd arno'r llynedd, cyflwynodd y Llywodraeth ffurflenni cais diwygiedig ar gyfer amlosgi drwy Reoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2017, a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2018. Roedd y rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer cyflwyno'r holl ffurflenni amlosgi yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, a hynny am y tro cyntaf erioed. Mae pob un o'r 18 o ffurflenni amlosgi a'r arweiniad sy'n cyd-fynd â nhw wedi'u cyhoeddi yn Gymraeg neu'n ddwyieithog bellach (ar 20 Ebrill 2018). Mae'r rhain ar gael yn <https://www.gov.uk/government/collections/ffurflenni-ac-arweiniad-ar-amlosgi>.

Mae'r Rheoliadau'n darparu bod fersiynau dwyieithog (neu Gymraeg) o'r ffurflenni hyn sy'n cael eu cyhoeddi gan yr Ysgrifennydd Gwladol, yn cael eu trin yn yr un modd â fersiynau Saesneg o'r ffurflenni. Mae'r ffurflenni amlosgi naill ai'n geisiadau am amlosgi neu'n ddogfennau sy'n cefnogi hynny, a bydd yr Awdurdodau Amlosgi yn eu prosesu.

Uned Iaith Gymraeg GLITEM

Uned Iaith Gymraeg GLITEM sy'n gwneud y rhan fwyaf o'n gwaith cyfieithu corfforaethol. Rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019 cyfieithodd yr Uned 43 o ddogfennau corfforaethol ar gyfer Pencadlys y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ar gost o £16,383.

Hysbysiadau i'r wasg, ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd a hysbysebu, hysbysiadau swyddogol a chyhoeddus

Meini prawf llwyddiant:

Cysondeb yn y ffordd y mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio.

Rydym wedi cyhoeddi un datganiad i'r wasg yn Gymraeg ynghylch cyhoeddi ein Cynllun Iaith Gymraeg newydd, a hynny ar 28 Mehefin 2018.

Gwasanaethau digidol, y wefan a gwybodaeth

Meini prawf llwyddiant:

a) Llai o gwynion yn ymwneud â diffyg deunydd Cymraeg ar gyfer dogfennau corfforaethol perthnasol.

- b) *Argaeledd deunydd Cymraeg priodol ar gyfer ein polisiâu a chyhoeddiadau.*
- c) *Systemau TG y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cynnwys galluedd Cymraeg*
- d) *Darparu fersiwn Gymraeg o'n tudalen hafan ar GOV.UK.*

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n gyfrifol am benderfynu pa ddeunydd 'adrannol a pholisi' ar GOV.UK sydd angen ei gyfieithu; trefnu cyfieithiad o ansawdd da; a chadw'r deunydd Cymraeg yn gywir ac yn gyfredol.

Lansiwyd tudalen Ianio Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn 2018 ac mae ar gael yma: <https://www.gov.uk/government/organisations/ministry-of-justice.cy>

Lansiwyd fersiwn Gymraeg o'n tudalen hafan ar GOV.UK ynghyd â'n tudalennau 'corfforaethol' cysylltiedig, sydd wedi cael eu cyfieithu i'r Gymraeg. Mae'r rhain ar gael drwy glicio ar 'Cymraeg' yng nghornel dde uchaf y dudalen hafan. Bydd Tîm Cyfathrebu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn sicrhau bod unrhyw ddiweddariadau i'r tudalennau hyn yn cael eu gwneud yn y Gymraeg hefyd. Byddwn yn parhau i ddarparu dolenni at gynnwys Cymraeg GOV.UK (pan fydd ar gael) oddi ar fersiwn Gymraeg yr Hafan.

Mae templedi busnes iaith Gymraeg newydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder wrthi'n cael eu creu. Rydym wrthi'n diweddarau'r fewnwyd â thempledi newydd, ond mae'r gwaith hwn wedi cael ei ohirio nes ceir cytundeb ynghylch is-bennawd newydd.

Dyma safbwynt Tîm Technoleg y Weinyddiaeth Gyfiawnder ynghylch technoleg iaith Gymraeg:

- wrth i ni ddatblygu a darparu systemau a chynnyrch TG newydd neu ddiweddarau'r hen rai, byddwn yn asesu'r gofynion ieithyddol o ran y gwasanaethau a ddarperir ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru
- byddwn yn hybu ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg cyn belled ag y bo hynny'n briodol i'r amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol
- wrth i ni ddatblygu neu gaffael systemau Thechnoleg y Weinyddiaeth Gyfiawnder, byddwn yn ystyried Canllawiau a Safonau Comisiynydd y Gymraeg ar Feddalwedd Dwyieithog
- cyfrifoldeb y maes busnes perthnasol yw cynnwys y platfformau TG (yn hytrach na'r dechnoleg gysylltiedig).

Mae'r egwyddorion hyn yn berthnasol pryd bynnag y bydd yn symud at gontractau newydd. Mae Gwasanaeth Digidol a Thechnoleg y Weinyddiaeth bob amser yn barod i ystyried unrhyw ofynion penodol sydd gan yr Uned Iaith Gymraeg.

Gwasanaethau a ddarperir ar ran y Weinyddiaeth Gyfiawnder gan bartïon eraill

Meini prawf llwyddiant:

Mae staff yn ymwybodol o'r trefniadau i gynnwys ystyriaeth o'r Gymraeg mewn cytundebau contract â thrydydd partïon.

Mae telerau ac amodau contract safonol cyfredol y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cynnwys cymalau sy'n mynnu bod cyflenwyr yn cydymffurfio â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a'r Cynllun Iaith Gymraeg 'fel petai nhw yw'r Awdurdod'.

Contract Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd:

Mae'r contractau gwasanaethau iaith yn parhau i ddarparu ar gyfer cyfieithu a chyfieithu ar y pryd i'r Gymraeg yn yr un modd ag y mae'n darparu ar gyfer ieithoedd eraill. Roedd y Gymraeg wedi'i chynnwys yn y fanyleb ar gyfer pob un o'r contractau fel un o'r ieithoedd y mae gofyn i gyflenwyr ddarparu gweithwyr iaith proffesiynol ar eu cyfer.

Yn ystod 2018-19, gyda'i gilydd, cafodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder 220 o archebion Cymraeg drwy ein contractau am gyfieithu ar y pryd wyneb yn wyneb, dros y ffôn ac ar fideo (Lot 1) ac ar gyfer cyfieithu ysgrifenedig a thrawsgrifio (Lot 2). Mae ystadegau ar ddefnyddio gwasanaethau

cyfieithu a chyfieithu ar y pryd mewn llysoedd a thribiwnlysoedd yn rhan o Ystadegau chwarterol y Llys Troseddol, sydd ar gael ar wefan GOV.UK:

<https://www.gov.uk/government/statistics/criminal-court-statistics-quarterly-january-to-march-2019>

Contract y Llinell Genedlaethol ar gyfer Gwneud Taliadau:

Dyfarwyd y contract hwn ym mis Rhagfyr 2017, ac mae'n un parhaus. Mae gofynion y gwasanaeth yn cynnwys darparu llinell ffôn bwrpasol yn y Gymraeg a'r Saesneg, gydag asiantwyr sy'n siarad Cymraeg a Saesneg. Mae'r gwasanaeth taliadau awtomatig ar gael yn Gymraeg a Saesneg hefyd.

Contract Cyngor Cyfreithiol Sifil (a gyhoeddwyd ym mis Medi 2018):

Mae hyn yn rheoli'r broses o ddarparu gwasanaethau cymorth cyfreithiol o bell yng nghategoriâu teulu, dyledion a thai, gwahaniaethu ac addysg. Mae'n cynnwys y cymal canlynol: *"Mae'n rhaid i chi gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol (gan gynnwys yr holl Ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Chymorth Cyfreithiol). Pan fyddwch chi'n darparu Gwaith Contract i Gleientiaid sy'n dewis Cymraeg fel iaith, dylech sicrhau bod Cleientiaid o'r fath yn gallu cael gfael ar y gwasanaeth hwnnw a'u bod yn ei ddeall, yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993"*.

Dyrannu grantiau

Meini prawf llwyddiant:

Caiff grantiau eu dyrannu yn unol â'r ymrwymadau a wnaed yn y Cynllun

Disgwylir i unrhyw sefydliad sy'n ymgeisio am grant ar gyfer gweithgareddau sy'n ymwneud â chyflenwi gwasanaethau i bobl yng Nghymru, gynnwys manylion yn eu ceisiadau, pan fo hynny'n briodol, ynghylch sut y bwriadant ddarparu'r gwasanaethau hynny yn y Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg. Yna bydd hyn yn cael ei gynnwys fel un o'r amodau cyllido.

Er mwyn sicrhau bod gennym drefniadau llywodraethu cadarn a bod gwariant grantiau'n sicrhau gwerth am arian, sefydlodd yr Adran swyddogaeth herio (Panel Herio Grantiau) ym mis Hydref 2017. Mae HMPPS/Bwrdd Grantiau Dioddefwyr a Thystion yn cadw golwg ar y prosesau o ddyrannu grantiau yn eu meysydd priodol, gan gynnwys y cyfanswm cyffredinol sy'n cael ei gynnig a sicrhau bod y grantiau'n cyd-fynd â blaenoriaethau strategol yr adran. Cynhelir y cystadlaethau drwy System e-Dendro Bravo. Mae modd i unrhyw gyflenwr sydd wedi cofrestru ddefnyddio'r system hon. Cafodd cystadlaethau eu hysbysebu â Clinks hefyd.

Er mwyn helpu i roi gwybodaeth i ddarpar ymgeiswyr, bydd y ddogfen ddisgrifiadol sy'n cyd-fynd â phob hysbyseb yn amlinellu a yw ystyriaethau Deddf yr Iaith Gymraeg yn berthnasol. Ar ôl dyrannu'r grant, ac os yw hyn yn briodol, tynnir sylw derbynnnydd y grant at ofynion y Weinyddiaeth Gyfiawnder y mae gofyn iddynt gydymffurfio â nhw. Mae hyn yn cynnwys lle mae Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder neu HMPPS yn rhoi gofynion perthnasol Deddf yr Iaith Gymraeg mewn grym.³

Yn 2018 -19 defnyddiwyd cyllideb grantiau HMPPS, cyfanswm o £4m, i gefnogi'r broses o barhau â grantiau strategol, a defnyddiwyd £1m ar gyfer Grantiau Arloesi sy'n cyfrannu at nodau eang HMPPS yn ogystal â'r blaenoriaethau penodol. Mae'r rhaglen grant yn cael ei hysbysebu i bob corff yn y Sector Gwirfoddol, Cymunedol a Mentrau Cymdeithasol – sef cyrff yn y Trydydd Sector – yng Nghymru a Lloegr.

Mae cyllid wedi cael ei ddyrannu i nifer o gyrff yn y Sector Gwirfoddol, Cymunedol a Mentrau Cymdeithasol i gefnogi nodau strategol, i brofi syniadau newydd ac arloesol ac i ddatblygu capasiti mewn sefydliadau gyda phrosiectau fel:

³ Yn 2015 gofynnodd Rhaglen Effeithlonrwydd Grantiau Swyddfa'r Cabinet am ganiatâd gan holl adrannau'r llywodraeth i gyhoeddi Cofrestr Grantiau'r llywodraeth. Bydd yn cael ei chyhoeddi ar data.gov.uk

- Radio i Garcharorion - ffynhonnell wybodaeth allweddol i droseddwr am faterion sy'n effeithio arnynt.
- Ymddiriedolaeth Koestler - sy'n annog gweithgareddau artistig ac yn tynnu sylw at waith celf troseddwr yn fwy cyffredinol.
- National Association of Prison Visitors - sy'n cefnogi ymwelwyr â charchardai i ddarparu gwasanaeth hanfodol i droseddwr heb gefnogaeth allanol.
- Prisoners Abroad - sefydliad sy'n cefnogi troseddwr i adsefydlu wedi iddynt ddychwelyd i'r DU ar ôl bod mewn carchar dramor.
- Y Samariaid - sy'n darparu cefnogaeth allweddol i garcharorion sy'n teimlo fel lladd eu hunain ac sydd mewn perygl o hunan-niweidio, a chefnogi gwaith mwy diogel yn y ddalfa.
- Cyngor ar Bopeth - sy'n darparu cyngor a chefnogaeth i ddiodefwyr camwedd cyfiawnder.

Mae'r tîm Polisi Dioddefwyr a Thystion wedi dyrannu grantiau gwerth £4m i dderbynyddion grantiau yng Nghymru, er mwyn darparu gwasanaethau cefnogi i bobl sydd wedi dioddef yn sgil trosedd. Dyfarnodd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid £4.6m i dimau troseddau ieuencid. Mae'r arweiniad a'r amserlen arfaethedig yn ystyried gofynion Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Arweiniodd Rhaglen Grant Arloesi HMPPS 2018-2020 at gychwyn 13 o brosiectau newydd ym mis Gorffennaf 2018. Hysbysebwyd y cyfle i bob corff yn y Sector Gwirfoddol, Cymunedol a Mentrau Cymdeithasol yng Nghymru a Lloegr. O blith y 13, nid oes unrhyw brosiect yn gweithredu'n benodol mewn lleoliadau HMPPS yng Nghymru, er y byddai derbynyddion grantiau wedi cael gwybod am ofynion y Cynllun Iaith Gymraeg pan fyddai hynny'n briodol.

Mae cyllid grant yn dal i fod ar gael i nifer o gyrff yn y Sector Gwirfoddol, Cymunedol a Mentrau Cymdeithasol ar sail tymor hwy hefyd, er mwyn cefnogi nodau strategol a datblygu capasiti ar draws y sector. Bydd y gwaith hwn sy'n cael ei ariannu gan grant yn cynnwys Cymru a Lloegr, a phan fydd hynny'n rhesymol bosib, bydd derbynyddion grantiau yn ceisio darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg os bydd gofyn.

4. Gweithredu, monitro ac adrodd

Meini prawf llwyddiant:

- a) Mae polisïau, mentrau a gwasanaethau yn gyson â'r ymrwymïadau a wnaed yn y Cynllun Iaith Gymraeg.*
- b) Grŵp Cydlynwyr y Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi'i ehangu ac yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn, gyda'r aelodau'n rhith-ryngweithio.*
- c) Trefniadau mewn lle i fonitro a chyflwyno adroddiadau ar gynnydd cyrff y Weinyddiaeth Gyfiawnder, sydd wedi'u rhestru yn Atodiad A, o ran gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder.*
- d) Mae gan staff drefniadau mewn lle i fonitro p'un a yw darparwyr gwasanaethau'n cydymffurfio â threfniadau Cymraeg sydd wedi'u cynnwys yng nghytundebau contractau.*

Cyhoeddwyd **Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig y Weinyddiaeth Gyfiawnder** ym mis Mehefin 2018, ar ôl i Gomisiynydd y Gymraeg ei gymeradwyo. Roedd Datganiad i'r Wasg yn cyd-fynd â'r cynllun, a chyhoeddwyd erthygl gan BBC Cymru ar y Cynllun newydd.

Ym mis Medi, roedd eitem 'Newyddion' pwysig ar fewnwyd y Weinyddiaeth Gyfiawnder, a oedd yn gofyn "Ydych chi'n gwybod sut mae cyflawni eich polisïau a'ch gwasanaethau yn deg yng Nghymru?" Cydlynwyd y Cynllun Iaith Gymraeg ysgrifennodd yr erthygl, er mwyn hybu Cynllun Iaith Gymraeg newydd y Weinyddiaeth, a chafodd ei hanfon at bob aelod o staff. Cafwyd adborth cadarnhaol i'r erthygl o bob maes corfforaethol, ac arweiniodd at lu o ymholiadau a chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwyd y Gymraeg.

Roedd Cydlynwyd Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn dal yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu'r Cynllun. Agwedd bwysig o'r rôl yw sicrhau bod y Cynllun yn cael ei

ddatblygu a'i ddefnyddio'n briodol gan wahanol feysydd busnes corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae hyn yn cynnwys darparu cyngor ac arweiniad ac ymateb i geisiadau am wybodaeth neu eglurhad ynghylch polisiâu ac arferion y Weinyddiaeth Gyfiawnder yng nghyswllt y Gymraeg. Ni chafodd Cydlynwyd y Cynllun unrhyw gwynion ffurfiol ynghylch y modd y gweithredwyd y Cynllun yn 2018-19.

Mae gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder **Grŵp Cydlynwyr y Gymraeg** o hyd. Mae'r grŵp wedi ehangu ac mae'n cynnwys cysylltiadau sy'n gweithio fel Cydlynwyr Iaith Gymraeg ar gyfer holl feysydd ein busnes. Mae'r Grŵp yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn.

Mae cylch gwaith y grŵp yn cynnwys:

- Canolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud â chyflawni ein Cynllun Iaith Gymraeg 2018.
- Rhannu enghreifftiau o arferion gorau i helpu i godi ymwybyddiaeth a rhannu syniadau
- Darparu fforwm i aelodau allu trafod materion sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â'r Gymraeg
- Rhoi cydgefnoogaeth i Gydlynwyr Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder a helpu i lywio cyfeiriad y polisi iaith Gymraeg yn y dyfodol.

Mae aelodau'r grŵp yn rhannu gwybodaeth a syniadau er mwyn gwella'r broses o wneud penderfyniadau. Pan fydd unrhyw bryder neu gamddealltwriaeth am arferion a'r polisi iaith Gymraeg, bydd y Cydlynwyr yn mynd ar eu trywydd ar ran aelodau a'r staff perthnasol, a hynny mewn ffordd gymesur, er mwyn sicrhau y bydd y mater yn cael ei ddatrys yn foddhaol.

Yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr 2018, roedd yn bleser gennym groesawu Swyddog Cydymffurfio Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer y Weinyddiaeth Gyfiawnder unwaith eto, fel siaradwr gwadd. Bu'n trafod rhai o'r datblygiadau allweddol o ran sicrwydd ac arferion llwyddiannus. Bwriwyd ymlaen â phob un o'r camau gweithredu yn dilyn y cyfarfod. Yn y cyfarfod ym mis Gorffennaf 2019, fe wnaethom groesawu Swyddog Cydymffurfio newydd Comisiynydd y Gymraeg.

Roedd gennym nifer o aelodau newydd yn y grŵp yn ystod y ddau gyfarfod. Mae hyn yn arwydd bod diddordeb mewn materion Cymraeg yn cynyddu'n raddol ar draws y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Yn unol ag arferion gorau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer cyfarfodydd, mae nifer o gynrychiolwyr yn galw i mewn er mwyn cymryd rhan bellach.

Rhwng cyfarfodydd, mae gan y Grŵp fforwm drafod rithiol *ad hoc* ar faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg, lle gellir rhannu cyngor, yn enwedig ynghylch pryd y bydd angen gwasanaethau cyfieithu o bosib.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn adrodd i Gomisiynydd y Gymraeg ar y cynnydd o ran cyflawni ein hymrwymiaadau yn y Cynllun Iaith Gymraeg hefyd.



© **Hawlfraint y Goron 2019**

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle y nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r adroddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill ar gais gan y Gwasanaethau Dadansoddi drwy gysylltu â MOJWLSrevision@justice.gsi.gov.uk